Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl
Residential Property Tribunal

Apêl o dan Adran 23 Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ("y Ddeddf") yn erbyn:

Hysbysiad cydymffurfio a gyflwynwyd gan awdurdod lleol o dan adran 17(1) o'r Ddeddf mewn perthynas â honiad o dorri amod(au) trwydded safle, neu

Penderfyniad yr awdurdod lleol i gymryd camau brys o dan adran 21 o'r Ddeddf, neu

Penderfyniad yr awdurdod lleol i hawlio treuliau o dan adran 22 y Ddeddf mewn perthynas â methiant neu gamau brys

Mae'r ffurflen gais hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ffurflen hon.

Dyma'r ffurflen i'w defnyddio os

1. o dan adran 17(1) o'r Ddeddf, mae awdurdod lleol sydd wedi dyroddi trwydded safle mewn perthynas â safle rheoleiddiedig perthnasol ar gyfer cartrefi symudol preswyl, wedi cyflwyno hysbysiad cydymffurfio i chi fel perchennog y tir, gan honni eich bod wedi methu cydymffurfio ag amod trwydded ac yn ei gwneud yn ofynnol i chi gymryd pa gamau bynnag sydd yn briodol ym marn yr awdurdod lleol i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r amod, a'ch bod yn dymuno apelio i'r tribiwnlys yn erbyn yr hysbysiad o dan adran 17(2) o'r Ddeddf; **NEU**

2. o dan adran 21(3) o'r Ddeddf, mae awdurdod lleol sydd wedi dyroddi trwydded safle mewn perthynas â safle rheoleiddiedig perthnasol ar gyfer cartrefi symudol preswyl, wedi cyflwyno i chi fel perchennog y tir, hysbysiad o'r camau brys y mae'r awdurdod wedi'u cymryd neu yn bwriadu eu cymryd mewn perthynas â'r tir, a'ch bod yn dymuno apelio i'r tribiwnlys o dan adran 21(9) yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol i gymryd camau brys; **NEU**

3. o dan adran 22(6) o'r Ddeddf, mae awdurdod lleol wedi cyflwyno i chi fel perchennog y tir hawliad am dreuliau y mae'r awdurdod lleol wedi'u cael (yn unol ag adran 22(1)):

   a) wrth gymryd camau o dan adran 20 i sicrhau bod amodau hysbysiad cydymffurfio yn cael eu bodloni wedi i'r perchennog gael ei gollfarnu o dan adran 18(1), neu

   b) Wrth gymryd camau brys o dan adran 21

   ac rydych am apelio i'r tribiwnlys o dan adran 22(7) yn erbyn yr hawliad am dreuliau.

Rhaid i'r cais i'r Tribiwnlys o dan adran 17(2) i apelio yn erbyn hysbysiad cydymffurfio gael ei wneud o fewn y cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau y diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad cydymffurfio.

Rhaid gwneud y cais i'r Tribiwnlys o dan adran 21(9) i apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol i gymryd camau brys o fewn y cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau y diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad o dan adran 21(8) yn disgrifio'r camau brys a gymerwyd neu a fydd yn cael eu cymryd i berchennog y tir.

Rhaid i'r cais i'r Tribiwnlys o dan adran 22(7) gael ei wneud cyn diwedd y cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau y diwrnod y cyflwynwyd yr hawliad am dreuliau o dan adran 22 (6).

Efallai y bydd y tribiwnlys yn caniatáu i chi wneud apêl iddo ar ôl i'r cyfnod apelio ddod i ben os yw'n fodlon fod rheswm da dros y methiant i apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw a thros unrhyw oedi ar ôl hynny cyn gwneud cais am ganiatâd i apelio ar ôl i'r cyfnod apelio ddod i ben (adran 23(3)).

Nodyn i Geiswyr
Cynghorir Ceiswyr ei bod yn bosib y bydd unrhyw wybodaeth y maent yn ei rhoi i'r Tribiwnlys yn cael ei chofnodi mewn dogfen penderfyniad. Mae pob penderfyniad a wneir gan y Tribiwnlys yn agored i'r cyhoedd.

Dogfennau
Mae'n rhaid i chi anfon y ddogfen/dogfennau canlynol ("dogfen/dogfennau angenrheidiol") gyda'r cais hwn:

- Copi o'ch trwydded safle gyda'r amod ynghlwm.
- Copi o hysbysiad cydymffurfio'r awdurdod lleol os yn berthnasol.
- Copi o hysbysiad yr awdurdod lleol yn dweud ei fod yn cymryd camau brys os yn berthnasol.
- Copi o hawliad yr awdurdod lleol am dreuliau os yn berthnasol.
- Prawf o gollfarn am drosedd o dan adran 18(1), os yn briodol, sy'n ymwneud â'r hawliad am dreuliau.
- Copi o unrhyw hysbysiadau eraill perthnasol y mae'r awdurdod lleol wedi'u cyflwyno i berchennog y tir o dan adran 17(1), 20(2), 21(3) neu (8) o'r Ddeddf lle bo hynny'n briodol mewn cais sy'n ymwneud â hawliad am dreuliau
- Unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n ategu'r cais.

Os byddwch yn methu anfon y ddogfen/dogfennau angenrheidiol, gallai olygu na fydd eich cais yn ddilys.

Peidiwch ag anfon unrhyw ddogfennau eraill ar hyn o bryd. Pan ac os bydd angen rhagor o wybodaeth, tystiolaeth neu ddogfennau arnom, byddwn yn gofyn i chi eu hanfon ar wahân.

Ffi Gwneud Cais

Oni bai bod gennych hawl i ostyngiad neu hepgoriad, mae'n rhaid i chi anfon y Ffi Gwneud Cais gyda'r cais a'r dogfennau angenrheidiol.
Bydd cost y ffi gwneud cais yn dibynnu ar faint o leiniau neu Gartrefi Symudol sydd wedi'u cynnwys yn y cais.

Nifer y lleiniau neu'r Cartrefi Symudol sydd wedi'u cynnwys yn y cais	**Ffi Gwneud Cais**
Os yw'r cais yn ymwneud ag un llain neu Gartref Symudol	£155
Os yw'r cais yn ymwneud â dwy lain neu ddau Gartref Symudol	£205
Os yw'r cais yn ymwneud â thair neu bedair llain neu dri neu bedwar Cartref Symudol	£410
Os yw'r cais yn ymwneud â phump neu fwy o leiniau neu Gartrefi Symudol	£515

Fydd Rhaid talu'r ffi naill ai gyda siec wedi'i chroesi neu archeb bost wedi'i dynnu o blaid "Llywodraeth Cymru" neu drwy drosglwyddiad banc, y gellir darparu manylion amdani ar gais. Peidiwch ag anfon arian parod o dan unrhyw amgylchiadau. Ni fyddwn yn derbyn taliadau mewn arian parod.

Cofiwch:
Os nad ydych yn anfon y ffi gywir sy'n daladwy i "Llywodraeth Cymru" neu os byddwch yn anfon arian parod, byddwn yn anfon y cais a'r arian parod yn ôl atoch ar eich cyfrifoldeb eich hun.

Hepgor Ffioedd

Os yw'r Ceisydd/Ceiswyr neu bartner/bartneriaid y Ceisydd/Ceiswyr yn cael rhai budd-daliadau penodol sy'n seiliedig ar incwm, gellir gostwng neu hepgor y Ffi Gwneud Cais.
I hawlio gostyngiad ar y Ffi Gwneud Cais neu am hepgor y ffi , mae'n rhaid i'r Ceisydd/Ceiswyr sy'n cael budd-dal o'r fath neu'r Ceisydd/Ceiswyr sydd â phartner/partneriaid sy'n cael budd-dal o'r fath, lenwi ffurflen cais am hepgoriad ffioedd. Mae hon ar gael gan y Tribiwnlys Eiddo Preswyl. Ni fydd y partïon eraill yn cael copi o hon.

Dewis iaith

Mae'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Rhowch wybod i'r tribiwnlys o'ch dewis iaith drwy gwblhau blwch 3 isod.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y nodiadau uchod yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen hon. Ysgrifennwch yn glir gan ddefnyddio inc DU, os gwelwch yn dda.

1. MANYLION Y SAFLE

Cyfeiriad y Safle:	

2. MANYLION Y CEISYDD

Enw:	

Cyfeiriad ar gyfer gohebu	

Rhif ffôn:

Yn ystod y dydd:
Gyda'r nos:
Symudol: :
Cyfeiriad e-bost:

Enw, cyfeiriad a manylion yr asiant (os yn berthnasol)

Lle rhoddir manylion asiant, gyda'r asiant hwnnw y bydd y Tribiwnlys yn cyfathrebu ac yn gohebu bob amser hyd nes y caiff ei hysbysu nad yw'r asiant bellach yn gweithredu ar ran y ceisydd/ceiswyr.

3. DEWIS IAITH

Nodwch eich dewis iaith:

Gohebiaeth ysgrifenedig? Cymraeg / Saesneg (dileer fel y bo'n briodol)

Cyfathrebu ar lafar? Cymraeg / Saesneg (dileer fel y bo'n briodol)

A ydych yn dymuno siarad Cymraeg mewn unrhyw achosion cyfreithiol a allai ddeillio o'r cais hwn h.y. gwrandawiad tribiwnlys neu adolygiad cyn treial?

Ydwyf / Nac ydwyf (dileer fel y bo'n briodol)

4. MANYLION PERCHENNOG Y SAFLE

Enw:	
Cyfeiriad ar gyfer gohebu	

Rhif ffôn:

Yn ystod y dydd:
Gyda'r nos:
Symudol: :
Cyfeiriad e-bost:

5. MANYLION YR AWDURDOD LLEOL

Enw:	
Cyfeiriad ar gyfer gohebu	

Rhif ffôn:

Yn ystod y dydd:
Gyda'r nos:
Symudol: :
Cyfeiriad e-bost:

6. Y MATH O BENDERFYNIAD YR APELIR YN EI ERBYN

Ticiwch y blwch priodol isod:

Apêl yn erbyn hysbysiad cydymffurfio; ☐

Apêl yn erbyn hysbysiad o gymryd camau brys; ☐

Apêl yn erbyn hawliad am dreuliau mewn perthynas â methiant neu gamau brys; ☐

Dyddiad y cyflwynwyd y ddogfen berthnasol (hysbysiad cydymffurfio/hysbysiad o gymryd camau brys/hawliad am dreuliau, fel sy'n briodol). _____

Sylwch: Yn achos hysbysiad o gymryd camau brys dyma'r seiliau y gellir dwyn apêl o dan adran 21(10) arnynt:

a) nad oedd unrhyw berygl uniongyrchol o niwed difrifol i iechyd a diogelwch unrhyw un sydd neu a allai fod ar y tir (neu, lle mae camau yn parhau i gael eu cymryd, nad oes unrhyw risg o'r fath);

b) nad oedd y camau a gymerwyd gan yr awdurdod yn angenrheidiol i ddileu'r risg uniongyrchol o niwed difrifol (neu, lle mae camau yn parhau i gael eu cymryd, nad oes angen dileu'r risg).

A wnewch chi gynnwys y canlynol os gwelwch yn dda:

Copi o'r drwydded gyda'r amod ynghlwm **neu**

Copi o'r hysbysiad neu'r hawliad y mae'r awdurdod lleol wedi'i gyflwyno i chi.

7. MANYLION Y SAIL RYDYCH YN APELIO ARNI

Nodwch yn gryno isod ar ba sail/seiliau rydych yn dymuno apelio. (Cewch barhau ar ddalen ar wahân os oes angen).

8. ALLWN NI DDELIO Â'CH CAIS HEB WRANDAWIAD?

Efallai ei bod yn bosibl delio â'ch cais drwy ddogfennau a sylwadau ysgrifenedig yn unig heb fod angen i'r partïon fod yn bresennol mewn gwrandawiad a chyflwyno sylwadau llafar. ("Penderfyniad ar bapur").

Gadewch i ni wybod os byddech yn hapus i ddelio â'r achos drwy benderfyniad ar bapur.

YDW ☐ NAC YDW ☐

D.S: Hyd yn oed os ydych wedi gofyn am benderfyniad ar bapur, efallai y bydd y Tribiwnlys yn penderfynu bod angen gwrandawiad. Gallwch hefyd ofyn am wrandawiad unrhyw bryd cyn y bydd y penderfyniad yn cael ei wneud. Ewch ymlaen i lenwi gweddill y ffurflen, gan dybio y bydd gwrandawiad yn cael ei gynnal

9. ARGAELEDD

A wnewch chi roi gwybod i ni isod os oes unrhyw ddyddiadau neu ddyddiau yn y tri mis nesaf y bydd yn rhaid i ni eu hosgoi (naill ai oherwydd nad ydynt yn hwylus i chi neu oherwydd nad ydynt yn hwylus i unrhyw dyst neu arbenigwr y byddech yn dymuno ei alw).

Dyddiadau pan NAD ydych ar gael:

Dyddiad:	Dyddiad:	Dyddiad:
Dyddiad:	Dyddiad:	Dyddiad:

10. GOFYNION O RAN Y LLEOLIAD

Rhowch fanylion unrhyw ofynion arbennig sydd gennych chi neu sydd gan unrhyw un a fydd yn dod gyda chi. Cynhelir y gwrandawiadau mewn lleoliadau lleol. Bydd o gymorth i'r Clercod archebu lleoliad addas ar eich cyfer os ydynt yn gwybod beth yw eich anghenion.

11. DATGANIAD GWIRIONEDD

Credaf fod y ffeithiau a nodir yn y datganiad hwn yn wir.

Llofnod: _____

Enw (mewn llythrennau bras) _____

Swydd (os yn briodol) (ee Cyfarwyddwr, Ysgrifennydd y Cwmni): _____

Dyddiad: _____

RHESTR WIRIO

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi:

- Cwblhau'r ffurflen YN LLAWN.
- Cynnwys yr holl ddogfennau angenrheidiol.
- Talu'r ffi briodol.

Ni fydd y Tribiwnlys yn prosesu eich cais os nad ydych wedi gwneud hyn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â sut i lenwi'r ffurflen hon neu'r weithdrefn y bydd y Tribiwnlys yn ei defnyddio, cysylltwch â'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl ar 0300 025 2777 neu anfonwch e-bost at rpt@llyw.cymru

Bydd y tribiwnlys yn derbyn ceisiadau trwy e-bost at rpt@llyw.cymru neu ar ffurf copi caled a anfonir trwy'r post.

Llenwch y ffurflen gais a'i hanfon gyda'r dogfennau angenrheidiol i'r cyfeiriad isod:

Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl
Llawr 1af, Adain Orllewinol
Southgate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW